

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Cyfres Polisiâu Enghreifftiol



## Polisi Gwirfoddoli Enghreifftiol

Bwriedir yr enghraifft hon at ddibenion arweiniad a dylid ei haddasu i anghenion eich mudiad penodol chi.

Gweler hefyd :

WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol Taflen Wybodaeth 4.2 [Datblygu Strategaeth Gwirfoddolwyr](#)

WCVA/Cynghorau Gwirfoddol Sirol Taflen Wybodaeth 4.3 [Creu Polisi Gwirfoddoli](#)

### Cyflwyniad

Mae'r polisi gwirfoddoli hwn yn nodi'r egwyddorion a'r arferion y byddwn yn eu dilyn wrth gynnwys gwirfoddolwyr ac mae'n berthnasol i staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn y mudiad. Ei nod yw creu dealltwriaeth gyffredin ac egluro rolau a chyfrifoldebau i sicrhau y cynhelir y safonau uchaf wrth reoli gwirfoddolwyr.

Mae'r llawlyfr gwirfoddoli yn rhoi manylion pellach ynglŷn â'r cymorth a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i wirfoddolwyr.

### Ein hymrwymiaadau

Cydnabyddwn wirfoddolwyr fel rhan hanfodol o'r mudiad. Mae eu cyfraniad yn cefnogi ein cenhadaeth a'n hamcanion strategol, ac yn ategu rôl staff cyflogedig. Ein nod yw annog a chefnogi cynnwys gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau bod gwirfoddoli o fudd i'r mudiad, ei gleientiaid a'r gwirfoddolwyr eu hunain.

Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod staff cyflogedig yn glir ynghylch rôl gwirfoddolwyr, ac i feithrin perthynas waith dda rhwng staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Ni ddefnyddir gwirfoddolwyr i gymryd lle staff.

Rydym yn ymrwymo i gynnig dewis hyblyg o gyfleoedd ac i annog amrywiaeth o bobl i wirfoddoli gyda ni, gan gynnwys y rheini o grwpiau a dangynrychiolir megis ieuenctid, pobl ag anabledd, pobl hŷn a phobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig.

Cydnabyddwn fod costau ynghlwm â chynnwys gwirfoddolwyr a byddwn yn ceisio sicrhau bod adnoddau ariannol a staff digonol ar gael i ddatblygu a chefnogi gwirfoddoli.

Cydnabyddwn fod gan bobl hawl i gyfranogi ym mywyd eu cymunedau drwy wirfoddoli ac y gallant gyfrannu mewn sawl ffordd. Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb i drefnu gwirfoddoli mewn modd effeithlon a sensitif fel y caiff y rhodd werthfawr, sef amser y gwirfoddolwr, ei defnyddio orau er lles pawb.

## **Pwy sy'n wirfoddolwr?**

Unigolion yw gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â gweithgaredd ar ran ein mudiad, yn ddi-dâl ac o'u dewis rhydd eu hunain.

Mae [Polisi Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru](#) (2015) yn diffinio gwirfoddoli fel gweithgarwch

- sy'n cael ei gyflawni'n rhydd, o ddewis
- sy'n cael ei gyflawni er budd i'r cyhoedd/y gymuned
- nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol

Nid yw lleoliadau profiad gwaith nac interniaethau yr un peth â gwirfoddoli. Cysyllter â'r adran Adnoddau Dynol i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r rhain. Mae ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr sy'n gyfrifol am lywodraethu'r mudiad.

Gall gwirfoddolwyr gyfrannu ar sail untro, yn y tymor byr neu'n fwy hirdymor. Gallant ymwneud â'r canlynol:

- yn uniongyrchol yn y gwaith o ddarparu ein gwasanaethau
- ar ein bwrdd rheoli fel ymddiriedolwyr
- ymgysylltu â chymunedau i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith
- mewn digwyddiadau untro a gweithgareddau hyrwyddo
- yn ein swyddfeydd neu mewn lleoliadau cymunedol

## **Gwerthfawrogi gwirfoddolwyr am wneud y canlynol:**

- cynnig sgiliau ychwanegol a safbwyntiau newydd i'r mudiad
- ein galluogi i fod yn fwy ymatebol a hyblyg yn ein ffordd o weithio
- hyrwyddo ein hachos o fewn y gymuned ehangach
- cyfoethogi ansawdd ein gwaith a phrofiad cleientiaid
- hyrwyddo llesiant defnyddwyr gwasanaethau, staff, cymunedau lleol a'u llesiant eu hunain.

## **Safonau arfer da**

Caiff ein harferion rheoli eu llywio gan y [Cod Ymarfer wrth gynnwys gwirfoddolwyr](#) a [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#), sef y Safon Ansawdd wrth reoli gwirfoddolwyr.

## **Rolau a chyfrifoldebau**

Mae aelod dynodedig o staff (Y Cydlynnydd Gwirfoddolwyr) yn gyfrifol am ddatblygu a chydlynu gweithgarwch gwirfoddol yn y mudiad, gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau gwirfoddoli a lles gwirfoddolwyr.

Bydd gan bob gwirfoddolwr aelod dynodedig o staff/gwirfoddolwr i gael arweiniad, cymorth a goruchwyliaeth. Bydd disgrifiad o swyddi aelodau o staff (new disgrifiad rôl gwirfoddolwyr) sydd â chyfrifoldebau dros wirfoddolwyr yn cyfeirio'n benodol at y cyfrifoldebau hynny.

Mae rôl y gwirfoddolwr wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth. Does dim rhwymedigaeth orfodol, dan gontract ai peidio, i'r gwirfoddolwr fynychu neu ymgymryd â thasgau penodol nac i'r mudiad ddarparu cyfleoedd parhaus i bobl wirfoddoli, nac i ddarparu hyfforddiant neu fuddion.

Serch hynny, gellir rhagdybio y ceir cydgefnogaeth a chyd-ddibyniaeth. Cydnabyddir cyd-ddisgwyliadau – yr hyn y mae'r mudiad yn ei ddisgwyl o wirfoddolwyr a'r hyn y mae gwirfoddolwyr yn ei ddisgwyl o'r mudiad.

Mae'r mudiad yn disgwyl i wirfoddolwyr wneud y canlynol:

- bod yn ddibynadwy ac yn onest
- cynnal gwerthoedd y mudiad a chydymffurfio â pholisiau'r mudiad
- manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael, ee ar gyfer hyfforddiant
- cyfrannu'n bositif at amcanion y mudiad ac osgoi dwyn anfri ar y mudiad
- cyflawni tasgau o fewn canllawiau y cytunir arnynt

Gall gwirfoddolwyr ddisgwyl y canlynol:

- gwybodaeth glir ynghylch beth a ddisgwylir a beth na ddisgwylir ohonynt
- cymorth a hyfforddiant digonol
- cael eu hyswirio a chael gwirfoddoli mewn amgylchedd diogel
- cael eu trin yn barchus ac mewn modd nad yw'n gwahaniaethu
- mân dreuliau
- cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol
- cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi
- yr hawl i wrthod unrhyw beth maent yn ei ystyried yn afrealistig neu'n afresymol
- cael gwybod beth i'w wneud os aiff rhywbeth o'i le

## **Recriwtio a dethol**

Cedwir at egwyddorion cyfle cyfartal wrth recriwtio gwirfoddolwyr. Bydd cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo'n eang, yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn ennyn diddordeb o wahanol sectorau yn y gymuned. Gellir cymryd camau positif i dargedu'r broses recriwtio pan fo'n briodol. Mae'n bosib recriwtio arlein drwy wefan Gwirfoddoli Cymru.

Gallwch ddefnyddio'r system i reoli proses o lunio rhestr fer neu ei defnyddio ar y cyd â'ch ffurflen gais eich hun.

Bydd gwybodaeth ar gael i'r rheini sy'n holi ynglŷn â gwirfoddoli, gan gynnwys disgrifiadau ysgrifenedig o rolau sy'n nodi natur a diben y rôl wirfoddol, tasgau allweddol, sgiliau gofynnol a buddion. Cynhelir asesiad risg ar gyfer pob rôl wirfoddol.

Fel arfer ar gyfer y broses recriwtio cynhelir cyfweiliad anffurfiol, llenwir ffurflen gais a chymerir geirdaon; bydd y broses yn cael ei diffinio a bydd yn gyson ar gyfer unrhyw rôl benodol – er enghraifft, bydd y broses recriwtio ar gyfer ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr rheolaidd a gwirfoddolwyr digwyddiadau untro yn cael ei theilwra ym mhob achos a gallant amrywio o'r naill i'r llall.

Pan na ellir rhoi ymgeiswyr yn y rôl yr oeddynt yn gobeithio cael eu rhoi ynddi, rhoddir adborth iddynt a'r cyfle i drafod rolau gwirfoddoli eraill, neu fe'u cyfeirir at y ganolfan wirfoddoli leol neu wefan [www.gwirfoddolicymru.net](http://www.gwirfoddolicymru.net).

Ar gyfer rolau sy'n cynnwys rhoi gofal a/neu gyswllt cyson ac uniongyrchol â phobl ifanc neu oedolion mewn perygl, bydd gofyn i wirfoddolwyr gael gwiriad datgelu llawn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a drefnir gan y mudiad. Caiff datgeliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu trin yn gwbl gyfrinachol. Nid yw cofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i wirfoddoli.

## **Cynefino a hyfforddi**

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu cynefino a'u hyfforddi fel sy'n briodol i'r tasgau penodol dan sylw.

## **Cefnogaeth a goruchwyliaeth**

Cynigir cymorth a goruchwyliaeth i wirfoddolwyr fel sy'n briodol a thrafodir hyn yn y broses gynefino. Mae trefniadau yn amrywio yn ôl y gwirfoddolwr a'r rôl dan sylw, a gallant gynnwys cymorth dros y ffôn, cyfarfodydd mewn grŵp neu adolygiadau un wrth un.

## **Cydnabyddiaeth**

Rhoddir y cyfle, pan fo'n berthnasol, i wirfoddolwyr rannu eu barn â staff ehangach y mudiad, mewn cyfarfodydd staff ayyb.

Caiff cydnabyddiaeth ffurfiol o gyfraniad gwirfoddolwyr ei mynegi drwy adroddiadau blynyddol, erthyglau ar y wefan, y cyfryngau cymdeithasol, ac yn ystod dathliadau gwobrau Wythnos Gwirfoddolwyr.

## **Delio gyda phroblemau**

Mae'r mudiad yn ymdrechu i drin pob gwirfoddolwr yn deg, yn wrthrychol ac yn gyson. Mae'n ymdrechu i sicrhau bod barn gwirfoddolwyr yn cael ei chlywed, a'i nodi, ac y gweithredir arni yn brydlon.

Byddwn yn ymdrechu i ddelio gydag unrhyw broblemau yn anffurfiol ac ar y cyfle cyntaf posib. Bydd gan bob gwirfoddolwr berson enwebedig i droi ato os cyfyd unrhyw anhawster. Pan nad yw'n bosib datrys anghydfod yn anffurfiol, dilynr polisi 'Datrys anghydfodau' y mudiad.

Rhoddir gwybod i wirfoddolwyr am bolisi cwynion y mudiad a sut i'w ddefnyddio. Rhoddir gwybod iddynt hefyd am y ffordd y bydd mudiad yn delio gydag ymddygiad amhriodol gan wirfoddolwyr.

## **Treuliau**

Rhoddir gwybodaeth glir i wirfoddolwyr ynglŷn â pha dreuliau y gellir eu hawlio a sut i'w hawlio.

## **Symud ymlaen**

Pan fo gwirfoddolwyr yn symud ymlaen o wirfoddoli gyda ni gofynnir iddynt roi adborth ar y profiad gwirfoddoli drwy ateb holiadur ymadael. Rhoddir cyfle iddynt hefyd drafod eu hymatebion i'r holiadur yn fanylach.

Bydd hawl gan wirfoddolwyr sydd wedi aros gyda'r mudiad am o leiaf 3 mis i ofyn am eirida. Cefnogir gwirfoddolwyr i symud ymlaen at opsiynau eraill.

## **Dogfennau perthnasol eraill**

Mae'r Llawlyfr Gwirfoddoli yn cynnwys gwybodaeth fanwl, ddefnyddiol i wirfoddolwyr gan gynnwys templed ffurflenni.

Ymysg polisiâu'r mudiad sy'n berthnasol i wirfoddolwyr y mae Iechyd a Diogelwch, Cyfle Cyfartal, Cyfrinachedd, Y Cyfryngau Cymdeithasol, Diogelu, Cwynion, Datrys Anghydfodau.

**Dyddiad cymeradwyo** \_\_\_\_\_

**Dyddiad yr adolygiad nesaf** \_\_\_\_\_

**Y person cyfrifol** \_\_\_\_\_

## **Ymwadiad**

**Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno**

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**  
*Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd,*  
*Caerdydd, CF10 5FH*  
**Elusen Gofrestredig: 218093**

Ffôn: 0800 2888 329 [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)  
Ffacs: 029 2043 1701 [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)



Ffôn: 0800 2888 329  
[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

**Wedi ei ddiweddarau: 14/02/2018**